

# Dogfen DRAFFT

Rhif: WG39387



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru  
Yr Asesiad Effaith Rheleiddiol

Cymru Fwy Cyfartal – Cychwyn y Ddyletswydd  
Economaidd-gymdeithasol

Dyddiad cyhoeddi: 22 Tachwedd 2019

# Dogfen DRAFFT

## YR ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL – DRAFFT

### CYMRU FWY CYFARTAL – CYCHWYN Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

#### CYFLWYNIAD

Dyma'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft ("RIA") ar gychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ("y ddyletswydd"). Mae'n ategu'r ddogfen ymgynghori, ac yn nodi'r manteision a'r costau posibl mewn perthynas â chychwyn y ddyletswydd. Maent yn seiliedig ar gyfres o ragdybiaethau 'rhesymol' dros gyfnod penodol.

Mae'r RIA yn cyflwyno'r amcangyfrif gorau o gostau a manteision y ddyletswydd sy'n seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael. Mae trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi llywio'r dadansoddiad. Er hynny, bu'n angenrheidiol gwneud cyfres o ragdybiaethau er mwyn cyflawni'r cyfrifiadau. Caiff unrhyw ragdybiaethau a wnaed eu hesbonio yn y naratif.

Mae'r asesiad o'r costau a'r manteision yn canolbwyntio ar y cyfnod o dair blynedd rhwng 2019/20 a 2021/22 (bwriedir cychwyn y ddyletswydd ar 1 Ebrill 2010). Mae cyfnod arfarnu o dair blynedd wedi'i ddewis, gan fod disgwyl i gostau a manteision y ddyletswydd sefydlogi'n gyflym ar ôl 'cyfnod interim' rhwng 2020/21 a 2021/22. Mae'r costau wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf, ond mae'n bosibl na fydd rhai yn cyfansymio oherwydd hynny.

Cynhaliwyd asesiad effaith i ategu Deddf Cydraddoldeb 2010<sup>1</sup> ("Deddf 2010") gan Lywodraeth y DU. Mae'r asesiad hwnnw yn ystyried effaith y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol<sup>2</sup>. Mae'r wybodaeth hon wedi'i defnyddio i lywio'r ddogfen hon i adlewyrchu chwyddiant, y cyd-destun Cymreig, a datblygiadau yn ystod y naw mlynedd ers cyflwyno'r Ddeddf.

---

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents>

<sup>2</sup> [https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100610085549/http://www.equalities.gov.uk/equality\\_bill.aspx](https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100610085549/http://www.equalities.gov.uk/equality_bill.aspx)

# Dogfen DRAFFT

## YR OPSIYNAU

Mae dau opsiwn wedi'u nodi a'u harchwilio:

**Opsiwn 1:** Gwneud dim – cadw'r status quo; ac

**Opsiwn 2:** Cychwyn y ddyletswydd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyffwrdd cyhoeddus perthnasol, wrth wneud penderfyniadau strategol megis 'penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion', ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

## OPSIWN 1: GWNEUD DIM – CADW'R STATUS QUO

### Disgrifiad

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu parhau fel y mae h.y. peidio â chychwyn Rhan 1, Adran 1 o Ddeddf 2010<sup>1</sup> yng Nghymru. Byddai'n golygu mai'r polisiau a'r mesurau sydd eisoes yn bodoli fyddai'r unig ddulliau o helpu i leihau anfantais economaidd-gymdeithasol.

Yng Nghymru, mae yna ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes sy'n cefnogi cyffwrdd cyhoeddus i leihau anghydraddoldebau a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol. Mae'n cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>3</sup>, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus – Deddf 2010<sup>4</sup>, Deddf Rheoliadau Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011<sup>5</sup>, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011<sup>6</sup> a Deddf Hawliau Dynol 1998<sup>7</sup>.

### Costau

Er nad yw'r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol, mae effeithiau a chostau posibl yn gysylltiedig â chadw'r status quo os na ymdrinnir yn effeithiol ag anghydraddoldeb economaidd.

Ar ôl ymweld â'r DU ym mis Tachwedd 2018, nododd yr Athro Philip Alston, Adroddwr Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Dlodi Eithafol a Hawliau Dynol:

*"We know only too well that levels of poverty across Wales and the rest of the UK are shocking, and getting worse, and that the responsibility for this rests squarely with the UK Government and its austerity and welfare reform policies"*<sup>8</sup>.

Mae dadansoddiad a gynhaliwyd gan Landman Economics ac Aubergine Analysis ar ran y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)<sup>9</sup> a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018, yn crynhoi'r canfyddiadau ar effaith bosibl diwygiadau Llywodraeth y

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted>

<sup>4</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/section/149>

<sup>5</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/1064/contents/made/welsh>

<sup>6</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents>

<sup>7</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/42/contents>

<sup>8</sup> <https://mailchi.mp/a56c7225c0e6/newsletter-un-special-rapporteur-on-extreme-poverty-and-human-rights?e=66db48a0fa>

<sup>9</sup> J. and Reed, H. (2018) *The cumulative impact of tax and welfare reforms. Adroddiad ar gyfer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/cumulative-impact-tax-and-welfare-reforms>

# Dogfen DRAFFT

DU ym maes treth a lles rhwng mis Mai 2010 a mis Ionawr 2018. Mae'r dadansoddiad hwn yn amcangyfrif y bydd tlodi cymharol ymhlith plant (ar ôl costau tai) yng Nghymru yn cynyddu'n sylweddol, gyda'r diwygiadau yn gwrthio 50,000 o blant ychwanegol i mewn i dlodi erbyn 2021-22 (cynnydd o ryw 8 pwynt canran). Mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn dangos bod effaith negyddol anghymesur ar incymau sawl grŵp gwarchoddedig, gan gynnwys pobl anabl, grwpiau ethnig penodol, a menywod, ac effeithiau arbennig o negyddol ar grwpiau croestoriadol sydd dan sawl anfantais (ee rhieni sengl â phlant anabl).

Mae adroddiad Llesiant Cymru 2019<sup>10</sup>, sy'n cynnwys dadansoddiad o'r cynnydd a wnawn yn unol â'r saith nod llesiant, yn nodi:

- roedd bron chwarter o holl bobl Cymru (24 y cant) yn byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai) rhwng 2015-16 a 2017-18;
- mai plant sydd fwyaf tebygol o fyw mewn tlodi cymharol; 29 y cant o blant o gymharu â 19 y cant o bensiynwyr;
- roedd dros ddau bumed (42 y cant) o'r rheini a oedd yn rhieni sengl mewn amddifadedd materol yn 2018-19;
- bod 3 y cant o aelwydydd wedi dweud eu bod wedi cael bwyd o'r banc bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf; ac
- yn 2018, roedd tua 12 y cant o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd (i lawr o 26 y cant o aelwydydd yn 2008).

Mae'n bwysig cydnabod bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn bodoli nid yn unig yn y cymunedau hynny sy'n cael eu hystyried yn nodweddiadol fel rhai amddifad. Er enghraifft, mae dadansoddiad o Fynegri Amddifadedd Lluosog Cymru<sup>11</sup> yn dangos er bod 20 y cant o bobl sydd mewn amddifadedd incwm yn byw yn y 10 y cant o'r ardaloedd o amddifadedd uchaf, mae hyn yn golygu nad yw 80 y cant o bobl mewn amddifadedd incwm yn byw mewn ardaloedd o'r fath.

Fodd bynnag, gall byw mewn ardal o amddifadedd waethygu canlyniadau negyddol i unigolion ac aelwydydd gan fod yr ardaloedd hynny'n wynebu heriau sylweddol; ac mae hynny'n arbennig o wir yn achos amddifadedd sydd wedi ymwreiddio'n ddwfn. Caiff hyn ei ddangos yn adroddiad 'Social mobility in Great Britain - state of the nation 2018 to 2019'<sup>12</sup> sy'n ystyried y gwahaniaethau rhwng y rheini sydd fwyaf a lleiaf amddifad; diffyg symudedd cymdeithasol o ran cyfleoedd addysg uwch a chyfleoedd gyrfa; a'r gwahaniaethu a wynebir os oes gan unigolion nodweddiad gwarchoddedig.

Nododd y Joseph Rowntree Foundation<sup>13</sup>, ar 8 Tachwedd 2016:

*“As well as the impact this has on people's lives and the waste of potential that it represents, it also places significant demands on the Welsh Government's budget, with public agencies within health, education, social care and the criminal justice systems spending £3.6 billion every year dealing with the social consequences of this high level of poverty. This is equivalent to £1,150 for every person living in*

<sup>10</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/s/statistics-and-research/2019-09/llesiant-cymru-2019-474.pdf>

<sup>11</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation>

<sup>12</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/social-mobility-in-great-britain-state-of-the-nation-2018-to-2019>

<sup>13</sup> <https://www.jrf.org.uk/press/poverty-costs-wales-£36-billion-every-year>

# Dogfen DRAFFT

*Wales, and represents £1 in every £5 of spending on public services. Poverty also brings additional costs from lost tax revenues and costs to the social security system.”*

Yn seiliedig ar y dystiolaeth uchod, mae costau posibl y bydd angen eu hysgwyddo o hyd, ac efallai y byddant yn cynyddu. Fodd bynnag, fel yr esboniwyd o dan Opsiwn 2, nid oes modd mesur y gwahaniaeth o ran sut y bydd cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar y costau hyn.

## Manteision

Mae'r dystiolaeth yn dangos na fydd gweithio o fewn y fframwaith deddfwriaethol a pholisi presennol (h.y. drwy beidio â chychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol), yn cael yr effaith a ddymunir o ran gosod anfantais economaidd-gymdeithasol yn rhan ganolog o brosesau cyrff cyhoeddus o wneud penderfyniadau strategol. Mae risg yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, gan y byddai'n golygu colli cyfle i leihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae'n bosibl y gall gwneud dim byd ddarparu sicrwydd i'r cyrff cyhoeddus perthnasol ynghylch y ffaith y bydd y status quo yn cael ei gadw ond mantais fach yw hynny o gymharu ag Opsiwn 2.

**OPSIWN 2: CYCHWYN Y DDYLETSWYDD GYFFREDINOL SY'N EI GWNEUD YN OFYNNOL I WEINIDOGION CYMRU A CHYRFF CYHOEDDUS PERTHNASOL, WRTH WNEUD PENDERFYNIADAU STRATEGOL MEGIS 'PENDERFYNU AR FLAENORIAETHAU A PHENNU AMCANION', YSTYRIED SUT Y GALLAI EU PENDERFYNIADAU HELPŪ I LEIHAI'R ANGHYDRADDOLDEBAU SY'N GYSYLLTIEDIG AG ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL.**

## Disgrifiad

Byddai'r opsiwn hwn yn gosod dyletswydd gyffredinol ar Weinidogion Cymru a chyrrff cyhoeddus perthnasol i ystyried sut y mae eu penderfyniadau strategol yn helpu i leihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Daw'r ddyletswydd newydd hon i rym drwy gychwyn Rhan 1, Adran 1 o Ddeddf 2010<sup>1</sup>. Bydd yn gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus perthnasol arfer eu swyddogaethau mewn ffordd benodol, i ystyried sut y gallant wella anfantais economaidd-gymdeithasol yn barhaus wrth wneud penderfyniadau strategol. Rhaid i'r ystyriaeth a roddir i anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn rhan annatod o wneud penderfyniadau strategol.

Yng Nghymru, cynigir y byddai'r awdurdodau cyhoeddus Cymreig a ganlyn ("cyrff cyhoeddus perthnasol") yn rhwym wrth y ddyletswydd, gan yr ymddengys eu bod yn bodloni'r prawf a nodir yn adran 2(6) o Ddeddf 2010:

- Gweinidogion Cymru;
- Awdurdodau Lleol;
- Byrddau lechyd Lleol;
- Ymddiriedolaethau'r GIG;
- Awdurdodau lechyd Arbennig (sy'n gweithredu yng Nghymru yn unig);

# Dogfen DRAFFT

- Awdurdodau Tân ac Achub;
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol; ac
- Awdurdod Cyllid Cymru.

## Costau

### Ymwybyddiaeth a hyfforddiant:

O 1 Ebrill 2020 ymlaen, mae addasu cyrff cyhoeddus perthnasol fel eu bod yn canolbwyntio'n fwy rhagweithiol ac fel mater o drefn ar leihau anfantais economaidd-gymdeithasol yn debygol o gynnwys cyfuniad o newidiadau o ran arweinyddiaeth, diwylliant ac ymddygiad. Felly, er mwyn gweithredu'r ddyletswydd yn llwyddiannus, rhagwelir bod angen gweithredu mewn dau faes allweddol:

- i. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth sefydliadol; a
- ii. Darparu adnoddau ategol.

### Disgrifiad – amlinellir y ddau faes isod:

- i. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth sefydliadol:

Er mwyn ymgorffori lefel sylfaenol o wybodaeth a dealltwriaeth am y ddyletswydd, a chreu diwylliant lle y mae unigolion a sefydliadau perthnasol yn gwneud penderfyniadau strategol yn y gobaith o leihau anfantais economaidd-gymdeithasol, bydd angen lefel sylfaenol o hyfforddiant ymwybyddiaeth – gellir gwneud hyn drwy gynnal digwyddiadau hyfforddi / codi ymwybyddiaeth. Rhagwelir y bydd yr hyfforddiant hwn yn helpu cyrff cyhoeddus perthnasol i ystyried pa newidiadau sydd angen eu gwneud i arferion gweithio presennol i sicrhau bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn ystyriaeth sylfaenol a'i bod yn cael ei hymgorffori yn niwylliant y sefydliadau. Mae hyn yn golygu sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i leihau anfantais economaidd-gymdeithasol o'r amser y gwneir penderfyniad strategol hyd nes y caiff ei weithredu.

Rhagwelwn y bydd y digwyddiadau hyfforddi / codi ymwybyddiaeth yn cael eu cynnal yn chwarterol ledled Cymru (dau ddigwyddiad yn 2019/20, pedwar digwyddiad yn 2020/21 a 2021/22) am ddwy awr yr un.

Mae brasamcan o gostau cyfle staff Llywodraeth Cymru i gynllunio a chynnal digwyddiadau a gweithdai ar gyfer rhanddeiliaid wedi'i gynnwys yn Nhabl 1.

**Tabl 1** – Cost cyfle – Staff Llywodraeth Cymru mewn digwyddiadau a gweithdai ar gyfer rhanddeiliaid

Cyfartaledd costau staff y flwyddyn*	Amcangyfrif o'r amser sydd ei angen	Cost 2019/20**	Cost 2020/21	Cost 2021/22
Gradd 7	0.05	£600	£1,100	£1,100
Uwch-swyddog Gweithredol (SEO)	0.05	£500	£800	£800

## Dogfen DRAFFT

Swyddog Gweithredol Uwch (HEO)	0.05	£300	£700	£700
Cost lleoliad***		£200	£400	£400
<b>Cyfanswm y gost</b>		<b>£1,600</b>	<b>£3,000</b>	<b>£3,000</b>

\*Darperir gan Dîm Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar Gyfraddau Cyflogau Gros Cyfartalog ar gyfer Bandiau Cyflog 2019 nad ydynt yn rhan o'r Uwch-wasanaeth Sifil.

\*\*Amcangyfrifir ar gyfer cyfnod o 6 mis rhwng mis Hydref 2019 a mis Ebrill 2020.

\*\*\* Amcangyfrifir y gost i fod yn £100 ar gyfer pob digwyddiad (dau ddigwyddiad yn 2019/20, pedwar digwyddiad yn 2020/21 a 2021/22).

O ran costau lleoliad, disgwyliwn y byddai safleoedd perthnasol sy'n eiddo i'r sector cyhoeddus a Llywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio i ddarparu'r hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ni fyddai hynny'n arwain at unrhyw gostau ychwanegol. Fodd bynnag, gall cost fod yn gysylltiedig â chadw lleoliadau i ddarparu'r hyfforddiant hwn os nad oes safle rhad ac am ddim addas ar gael ac felly mae hyn wedi'i gynnwys. Mae'r gost yn seiliedig ar amcangyfrif o gost hurio lleoliad, a ddefnyddir yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil lechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)<sup>14</sup> (cyfeirir at baragraff 198). Amcangyfrifir y gost hon i fod yn £100 y flwyddyn.

Amcangyfrifir cyfanswm cost cyfle Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig ag ymwybyddiaeth sefydliadol, dros y cyfnod o dair blynedd, i fod yn £7,600.

Mae costau cyfle ar gyfer cyrff cyhoeddus perthnasol i'w staff fynychu'r hyfforddiant ac fe'u hamcangyfrifir ar y sail y bydd tri aelod o staff fesul corff cyhoeddus perthnasol yn mynychu'r hyfforddiant a grybwyllir uchod (wedi'i gynnal yn chwarterol (dau ddigwyddiad yn 2019/20, pedwar digwyddiad yn 2020/21 a 2021/22)). Amcangyfrifir y bydd hyn yn:

**Tabl 2** – Cost cyfle – Staff perthnasol y sector cyhoeddus sy'n mynychu digwyddiadau a gweithdai ar gyfer rhanddeiliaid

Math o gorff sector cyhoeddus	Nifer y cyrff y mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol iddynt	Enillion cyfartalog (canolrif) yn y sector cyhoeddus, 2018*	Cost 2019/20 (pedair awr)**	Cost 2020/21 (wyth awr)**	Cost 2021/22 (wyth awr)**	Cyfanswm y gost cyfle 2019/20 – 2021/22
Gweinidogion Cymru	1	£67,700***	£500	£1,000	£1,000	<b>£2,500</b>
Awdurdodau Lleol	22	£64,500	£9,600	£19,200	£19,200	<b>£48,000</b>
Byrddau lechyd Lleol	7	£64,500	£3,100	£6,100	£6,100	<b>£15,300</b>

<sup>14</sup><http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld12572-e-m/pri-ld12572-e-m-w.pdf>

## Dogfen DRAFFT

Ymddiriedol aethau'r GIG	3	£64,500	£1,400	£2,700	£2,700	<b>£6,800</b>
Awdurdoda u lechyd Arbennig	1	£64,500	£500	£900	£900	<b>£2,300</b>
Awdurdoda u Tân ac Achub	3	£64,500	£1,400	£2,700	£2,700	<b>£6,800</b>
Awdurdoda u Parciau Cenedlaethol	3	£64,500	£1,400	£2,700	£2,700	<b>£6,800</b>
Awdurdod Cyllid Cymru	1	£64,500	£500	£900	£900	<b>£2,300</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>£18,400</b>	<b>£36,200</b>	<b>£36,200</b>	<b>£90,800</b>

*\*Yn seiliedig ar ddata diweddaraf yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)<sup>15</sup> enillion gros canolrifol yr awr ar gyfer 'Prif Weithredwyr ac uwch-swyddogion' (Cod Swydd 111) yng Nghymru yn 2018, mae 30% o gynnydd wedi'i ychwanegu i adlewyrchu argostau.*

*\*\*Yn seiliedig ar gyfanswm o ddau ddigwyddiad yn 2019/20, pedwar digwyddiad yn 2020/21 a 2021/22 am gyfnod o ddwy awr yr un a bod tri aelod o staff o bob corff cyhoeddus perthnasol yn mynychu.*

*\*\*\*Yn seiliedig ar y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau 2019 — 2020<sup>16</sup>, mae tudalen 13 yn darparu ffigurau ar gyflogau sylfaenol.*

### ii. Darparu adnoddau ategol:

I gefnogi gweithrediad parhaus y ddyletswydd, bydd Llywodraeth Cymru yn creu canllawiau anstatudol i helpu cyrff cyhoeddus perthnasol i weithredu'r ddyletswydd. Bydd ar ffurf canllawiau 'interim' a fydd yn cael eu cyhoeddi ar 1 Ebrill 2020, cyn cyhoeddi canllawiau statudol 'terfynol' ar 1 Ebrill 2022. Bydd y cyfnod o ddwy flynedd yn caniatáu amser i Lywodraeth Cymru weithio gyda chyrff cyhoeddus perthnasol i fireinio'r canllawiau ac i gyrff cyhoeddus ddeall y gofynion yn llawn, a'u hymgorffori mewn arferion gweithio presennol. Bydd yn gyfle i adolygu ac i ymgysylltu'n barhaus i sicrhau bod y ddyletswydd yn gweithio fel y dylai i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniad sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Bydd y canllawiau anstatudol 'interim' a'r canllawiau statudol 'terfynol' yn cael eu llunio ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr cyrff cyhoeddus perthnasol, a rhanddeiliaid allweddol eraill – fodd bynnag, gan mai Llywodraeth Cymru fydd yn ysgrifennu'r canllawiau, rhagwelir y bydd yn ysgwyddo rhan fwyaf o'r gost.

I ddatblygu'r canllawiau 'interim' a'r canllawiau statudol 'terfynol' dilynol, yn ogystal ag ymgymryd â chyfnod adolygu ac ymgysylltu, rhagwelir y bydd y gwaith yn cymryd tair blynedd. O safbwynt Llywodraeth Cymru, rhagwelir y bydd tri aelod o staff ar lefel briodol ynghlwm wrth y gwaith hwnnw – rhagwelir i'r staff fod ar radd gyferwerth â

<sup>15</sup><https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/annualsurveyofhoursandearnings/2018?uri=employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/annualsurveyofhoursandearnings/2018>

<sup>16</sup><http://www.senedd.cymru/iaid.cymru/documents/s86918/Penderfyniad%20a%20Gyflogau%20a%20Lwfansau%20Aelodau%20-%20Ebril%202019.pdf>



## Dogfen DRAFFT

Swyddog Gweithredol Uwch (HEO), Uwch-swyddog Gweithredol (SEO) neu Radd 7 Llywodraeth Cymru. Amcangyfrifir costau staff Llywodraeth Cymru i fod fel a ganlyn:

**Tabl 3** – Costau cyfle – Llywodraeth Cymru – Cost staff sy'n gysylltiedig â datblygu'r canllawiau

Cyfartaledd costau staff y flwyddyn *	Amcangyfrif o'r amser sydd ei angen	Cost 2019/20**	Cost 2020/21	Cost 2021/22
Gradd 7	0.05	£1,100	£2,200	£2,200
Uwch-swyddog Gweithredol (SEO)	0.1	£500	£1,000	£1,000
Swyddog Gweithredol Uwch (HEO)	0.1	£300	£500	£500
<b>Cyfanswm</b>		<b>£2,000</b>	<b>£3,200</b>	<b>£3,200</b>

\*Darperir gan Dîm Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar Gyfraddau Cyflogau Gros Cyfartalog ar gyfer Bandiau Cyflog 2019 nad ydynt yn rhan o'r Uwch-wasanaeth Sifil, gan gynnwys argostau.

\*\*Amcangyfrifir ar gyfer cyfnod o 6 mis rhwng mis Hydref 2019 a mis Ebrill 2020.

I gyrrff cyhoeddus perthnasol gael gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyd-lunio'r canllawiau 'interim' a 'therfynol', rhagwelwn y bydd angen wyth aelod o staff y sector cyhoeddus (un ar gyfer pob math o gorff cyhoeddus perthnasol) am gyfnod o ddwyrain bob chwarter. Amcangyfrifir y costau hyn yn Nhabl 4 isod:

**Tabl 4** – Costau cyfle – cost staff cyrrff cyhoeddus perthnasol sy'n gysylltiedig â datblygu'r canllawiau

Math o gorff sector cyhoeddus	Nifer y cyrrff y mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol iddynt	Enillion cyfartalog (canolrif) yn y sector cyhoeddus, 2018*	Cost 2019/20 (pedair awr)**	Cost 2020/21 (wyth awr)**	Cost 2021/22 (wyth awr)**	Cyfanswm y gost cyfle 2019/20 – 2021/22
Gweinidogion Cymru	1	£67,700***	£200	£400	£400	<b>£1,000</b>
Awdurdodau Lleol	22	£64,500	£3,200	£6,400	£6,400	<b>£16,000</b>
Byrddau lechyd Lleol	7	£64,500	£1,100	£2,100	£2,100	<b>£5,300</b>
Ymddiriedolaethau'r GIG	3	£64,500	£500	£900	£900	<b>£700</b>
Awdurdodau lechyd Arbennig	1	£64,500	£200	£300	£300	<b>£800</b>
Awdurdodau Tân ac Achub	3	£64,500	£500	£900	£900	<b>£2,300</b>

## Dogfen DRAFFT

Awdurdodau Parciau Cenedlaethol	3	£64,500	£500	£900	£900	<b>£2,300</b>
Awdurdod Cyllid Cymru	1	£64,500	£200	£300	£300	<b>£800</b>
<b>Cyfanswm</b>	-		<b>£6,400</b>	<b>£12,200</b>	<b>£12,200</b>	<b>£29,200</b>

\*Yn seiliedig ar ddata diweddaraf yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)<sup>17</sup>, enillion gros canolrifol yr awr ar gyfer 'Prif Weithredwyr ac uwch-swyddogion' (Cod Swydd 111) yng Nghymru yn 2018, mae 30% o gynnydd wedi'i ychwanegu i adlewyrchu argostau.

\*\* Amcangyfrifir ar gyfer cyfnod o 6 mis rhwng mis Hydref 2019 a mis Ebrill 2020.

\*\*\*Yn seiliedig ar y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau 2019 — 2020<sup>18</sup>, mae tudalen 13 yn darparu ffigurau ar gyflogau sylfaenol.

Yn ogystal â'r tabl uchod (Tabl 3), mae cost cyfle ar gyfer Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu'r canllawiau o ran cyfieithu a dylunio.

**Tabl 5** – Cost cyfle – Amser staff Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r canllawiau, ac i adolygu ac ymgysylltu 2019/20

Gweithgaredd	Costau staff cyfartalog y flwyddyn	Amser	Cost
Cost cyfle – Cyfieithu'r Canllawiau*	Swyddog Gweithredol Uwch (HEO)	8 diwrnod	£1,400
Cost cyfle – Cyfieithu'r Canllawiau*	Swyddog Gweithredol Uwch (HEO)	4 diwrnod	£700
Cost cyfle – Cyfieithu a phrawf ddarllen*	Swyddog Gweithredol Uwch (HEO)	15 diwrnod	£2,600
Cost cyfle – Dylunio a theiposod*	Swyddog Gweithredol (EO)	4 diwrnod	£500
<b>Cyfanswm</b>			<b>£8,200</b>

\*Cyfrifwyd y costau ar sail Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil Ymgysylltu ac Ansawdd a wnaeth ddarparu cost yn seiliedig ar 25,000 o eiriau<sup>19</sup> (gweler paragraff 203).

Ni fyddai costau yn gysylltiedig â dosbarthu'r canllawiau gan mai fersiynau electronig ar wefan Llywodraeth Cymru fyddai ar gael yn unig.

### Gweithredu:

<sup>17</sup><https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/annualsurveyofhoursandearnings/2018?uri=employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/annualsurveyofhoursandearnings/2018>

<sup>18</sup> <http://www.senedd.cymru/iad.cymru/documents/s86918/Penderfyniad%20ar%20Cyflogau%20a%20Lwfansau%20Aelodau%20-%20Ebril%202019.pdf>

<sup>19</sup> <http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld12572-em/pri-ld12572-em-w.pdf>

## Dogfen DRAFFT

Mae'r asesiad effaith gwreiddiol a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU o blaid y Ddeddf Cydraddoldeb, yn nodi:

*"It is difficult to estimate the cost of legislation, it is taken to be the time required for authorities to familiarise themselves with it, and the time taken on an on-going basis to ensure that appropriate data feeds into the relevant decision-making processes. It is assumed that the first element will, on average, take a senior official (or equivalent) three days (21 hours), including half a day to familiarise themselves with the legislation and then a further two and a half days to integrate consideration of socioeconomic disadvantage into the policy process where this is not already the case. It is assumed that the second element will take a senior official or analyst one day's work each year.*

*The assumption that compliance will take 21 hours initially and 7 hours on an on-going basis is the main limitation on the accuracy of this impact assessment. It is not known how long it will take authorities to familiarise themselves with the duty and to adjust their policy processes to accord with it."*

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hwn yn asesiad teg. Fodd bynnag, anhawster arall o ran amcangyfrifo costau yw'r ffaith y gall nifer y penderfyniadau strategol y bydd cyrff cyhoeddus perthnasol yn eu gwneud bob blwyddyn amrywio rhwng sectorau cyhoeddus h.y. gallai awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol wneud dipyn mwy o benderfyniadau strategol mewn blwyddyn o gymharu ag awdurdod parc cenedlaethol neu wasanaeth tân ac achub oherwydd natur gymhleth y cyrff hyn. Rydym yn credu, felly, fod y dadansoddiad a'r costau a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol yn dal i fod yn briodol, ac eithrio uwchraddio, at ddibenion chwyddiant, gyflog fesul awr gweithiwr cyfartalog yn y sector cyhoeddus. Mae'r costau cyfle diwygiedig ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus i'w gweld isod:

**Tabl 6** – Cost cyfle – Amser perthnasol staff y sector cyhoeddus sy'n gysylltiedig â gweithredu

Math o gorff sector cyhoeddus	Ar gyfer pob corff y mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol iddo	Enillion cyfartalog (canolrif) yn y sector cyhoeddus, 2018*	Cost 2019/20 (21 awr)**	Cost 2020/21 (saith awr)	Cost 2021/22 (saith awr)	Cyfanswm y gost cyfle 2019/20 – 2021/22
Gweinidogion Cymru****	1	£67,700***	£800	£300	£300	<b>£1,400</b>
Awdurdodau Lleol	1	£64,500	£800	£300	£300	<b>£1,400</b>
Byrddau Iechyd Lleol	1	£64,500	£800	£300	£300	<b>£1,400</b>
Ymddiriedolaethau'r GIG	1	£64,500	£800	£300	£300	<b>£1,400</b>
Awdurdodau Iechyd Arbennig	1	£64,500	£800	£300	£300	<b>£1,400</b>
Awdurdodau Tân ac Achub	1	£64,500	£800	£300	£300	<b>£1,400</b>
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol	1	£64,500	£800	£300	£300	<b>£1,400</b>

## Dogfen DRAFFT

Awdurdod Cyllid Cymru	1	£64,500	£800	£300	£300	<b>£1,400</b>
<b>Cyfanswm</b>	-		<b>£6,400</b>	<b>£2,400</b>	<b>£2,400</b>	<b>£11,200</b>

\*Yn seiliedig ar ddata diweddaraf yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)<sup>20</sup>, yr enillion gros canolrifol yr awr ar gyfer 'Prif Weithredwyr ac uwch-swyddogion' (Cod Swydd 111) yng Nghymru yn 2018, mae 30% o gynnydd wedi'i ychwanegu i adlewyrchu argostau.

\*\*21 awr a 3.5 awr ychwanegol (7 awr pro rata)

\*\*\*Yn seiliedig ar y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau 2019 — 2020<sup>21</sup>, mae tudalen 13 yn darparu ffigurau ar gyflogau sylfaenol.

\*\*\*\*Rydym yn cydnabod bod cost cyfle i Lywodraeth Cymru o ran cefnogi Gweinidogion Cymru i gyflawni eu dyletswydd. Fodd bynnag, mae wedi bod yn anodd ei chyfrifo a byddai darparu amcangyfrif ar y cam hwn yn gallu bod yn gamarweiniol. Felly, byddwn yn ystyried hyn ymhellach ac yn cynnwys cost ar ôl yr ymgynghoriad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol.

### Adrodd:

Nid oes dyletswydd adrodd ynghlwm wrth y darn hwn o ddeddfwriaeth. Bydd angen i gyrrff cyhoeddus perthnasol ddangos sut y maent yn cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol wrth wneud penderfyniadau strategol. Bydd y canllawiau a fydd yn cael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru yn annog cyrrff cyhoeddus perthnasol i fanylu sut y maent yn cyflawni eu dyletswydd drwy ddefnyddio eu mecanweithiau monitro ac adrodd presennol lle bo'n briodol. Ar y sail hwn, rydym yn dilyn y rhagdybiaethau a wnaed yn asesiad effaith Llywodraeth y DU fel y'u cyflwynwyd uchod; felly, amcangyfrifir y bydd yn cymryd un unigolyn o bob corff cyhoeddus perthnasol un awr y flwyddyn i ymgymryd â'r dasg hon. Mae amcangyfrif o'r gost hon yn Nhabl 7:

**Tabl 7 – Cost cyfle – Amser staff sector cyhoeddus perthnasol sy'n gysylltiedig ag adrodd**

Math o gorff sector cyhoeddus	Enillion cyfartalog (canolrif) yn y sector cyhoeddus, 2018*	Cost 2019/20 (0.5 awr)**	Cost 2020/21 (un awr)	Cost 2021/22 (un awr)	Cyfanswm y gost cyfle 2019/20 – 2021/22
Gweinidogion Cymru	£67,700***	£19	£38	£38	<b>£100</b>
Awdurdodau Lleol	£64,500	£18	£36	£36	<b>£100</b>
Byrddau lechyd Lleol	£64,500	£18	£36	£36	<b>£100</b>
Ymddiriedolaethau'r GIG	£64,500	£18	£36	£36	<b>£100</b>
Awdurdodau lechyd Arbennig	£64,500	£18	£36	£36	<b>£100</b>
Awdurdodau Tân ac Achub	£64,500	£18	£36	£36	<b>£100</b>
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol	£64,500	£18	£36	£36	<b>£100</b>

20 <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/annualsurveyofhoursandearnings/2018>

21 <http://www.senedd.assembly.wales/documents/s86918/Determination%20on%20Members%20Pay%20and%20Allowances%20-%20April%202019.pdf>

## Dogfen DRAFFT

Awdurdod Cyllid Cymru	£64,500	£18	£36	£36	£100
<b>Cyfanswm</b>	-	<b>£200</b>	<b>£300</b>	<b>£300</b>	<b>£800</b>

\*Yn seiliedig ar ddata diweddaraf yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)<sup>22</sup>, enillion gros canolrifol yr awr ar gyfer 'Prif Weithredwyr ac uwch-swyddogion' (Cod Swydd 111) yng Nghymru yn 2018, mae 30% o gynnydd wedi'i ychwanegu i adlewyrchu argostau.

\*\*Amcangyfrifir ar gyfer cyfnod o 6 mis rhwng mis Hydref a mis Ebrill 2020.

\*\*\*Yn seiliedig ar Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau 2019 — 2020<sup>23</sup>, mae tudalen 13 yn darparu ffigurau ar gyflogau sylfaenol.

Yn ogystal â'r uchod, bydd costau'n gysylltiedig â chyflwyno data i alluogi cyrff cyhoeddus perthnasol i ddadansoddi anfantais economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, er mwyn helpu cyrff cyhoeddus perthnasol, mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y gellir tynnu'r data hyn o amrywiaeth o adnoddau sydd eisoes yn bodoli megis:

- Dangosyddion llesiant cenedlaethol<sup>24</sup>;
- Data cyflogaeth blynyddol a gyhoeddwyd dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus<sup>25</sup>;
- Adroddiad blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'A yw Cymru'n Decach'<sup>26</sup>;
- Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru<sup>27</sup>;
- Amrywiaeth eang o ystadegau swyddogol eraill drwy StatsCymru<sup>28</sup> a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol<sup>29</sup>.

Gan y bydd y deunyddiau hyn yn parhau i'w cyhoeddi fel maer o drefn, nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r elfen hon o gychwyn y ddyletswydd. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â dadansoddi'r data hyn gan gyrrff cyhoeddus perthnasol wedi'u cynnwys yn y costau gweithredu a amlinellir yn Nhabl 6.

### Costau cyfreithiol:

Drwy gychwyn y ddyletswydd, gellid awgrymu bod yr opsiwn hwn yn creu "bachyn" ychwanegol i herio penderfyniadau'n gyfreithiol ar y sail nad ydynt yn cydymffurfio â'r ddyletswydd h.y. os yw corff cyhoeddus perthnasol yn methu â pherfformio'r ddyletswydd, gall unigolyn neu grŵp y mae penderfyniad y corff cyhoeddus yn effeithio'n negyddol ar ei fuddiannau, wneud cais am adolygiad barnwrol yn erbyn yr awdurdod.

Er bod methiant i gydymffurfio â'r ddyletswydd yn gallu cael ei herio yn y llys, mae'n annhebygol y bydd y ddyletswydd yn arwain at unigolyn yn cael hawl i wasanaeth penodol. Er enghraifft, penderfynwyd yn achos *R (Dyer) v Welsh Ministers [2015] EWHC 3712* nad oedd y drefn statudol (Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)

22 <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/annualsurveyofhoursandearnings/2018>

23 <http://www.senedd.cymru/documents/s86918/Penderfyniad%20a%20Cyflogau%20a%20Lwfansau%20Aelodau%20-%20Ebrill%202019.pdf>

24 <https://llyw.cymru/llesiant-cymru-adroddiadau-cynnydd-yn-erbyn-y-nodau-llesiant/>

25 <https://stats.cymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Public-Sector-Equality-Duty>

26 <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/wales-fairer-2018>

27 <https://llyw.cymru/tueddiadau-dyfodol-2017?>

28 <https://stats.cymru.llyw.cymru/Catalogue>

29 <https://www.ons.gov.uk/>

# Dogfen DRAFFT

2006)<sup>30</sup> yn addas i greu hawl i ddarpariaeth gwasanaeth ac nad oedd unrhyw ddyletswyddau cyfraith cyhoeddus wedi'u torri mewn perthynas â chasglu data ynghylch darparu gwasanaethau neu o ran gwneud penderfyniadau ynghylch y ddarpariaeth honno. Felly, er gallai'r costau posibl sydd ynghlwm wrth heriau posibl drwy adolygiadau barnwrol fod yn sylweddol pe baent yn dwyn ffrwyth, maent yn debygol o fod yn isel. Nid oes modd mesur y costau hyn oherwydd hyd yn oed pe bai achos yn cael ei herio drwy adolygiad barnwrol, mae costau adolygiadau o'r fath yn amrywio'n sylweddol ac felly nid oes modd gwybod y gost hon ar y cam hwn.

## Canlyniadau:

Mae Opsiwn 1 yn nodi costau sy'n gysylltiedig â pheidio â chychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu darparu cost o ran pa arbedion, os o gwbl, y gellir eu gwneud yn sgil cychwyn y ddyletswydd. Fel yr esboniwyd yn Opsiwn 1, mae hyn oherwydd bod y ffactorau sy'n dylanwadu ar anfantais economaidd-gymdeithasol yn gymhleth ac yn aml yn rhan o gylch cydgysylltiol. Ar ben hynny, dim ond i nifer cyfyngedig o gyrff cyhoeddus y bydd y ddyletswydd yn berthnasol a bydd hynny, o bosibl, yn golygu na fydd llawer o newid eang. Felly, ystyrir nad oedd modd mesur y costau sy'n gysylltiedig ag unrhyw arbedion posibl ac felly nid oes amcangyfrif wedi'i ddarparu. Byddai'r amcangyfrif mor eang fel na fyddai'n darparu gwerth ac y byddai'n gamarweiniol.

## Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)

Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ymwneud â chyfrifoldeb y Comisiwn dan adran 8 o Ddeddf Cydraddoldeb 2006, yn enwedig y rhwymedigaeth o dan adran 8(1)(e) i orfodi Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae ddyletswyddau'r Comisiwn dan adran 11 o Ddeddf Cydraddoldeb 2006 i fonitro'r gyfraith a dan adran 12 o Ddeddf Cydraddoldeb 2006 i fonitro cynnydd hefyd yn berthnasol i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Byddai pwerau cyffredinol y Comisiwn a nodir dan adran 13 i 17 o Ddeddf Cydraddoldeb 2006 yn gymwys i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys darparu gwybodaeth a chynghor, ymchwil, codau ymarfer ac ymchwiliadau.

Yn ei rôl fel rheoleiddiwr Deddf Cydraddoldeb 2010, bydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn hyrwyddo a darparu cynghor a chanllawiau ar weithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru. Mae costau cyfle ar gyfer y Comisiwn o ran defnyddio ei staff presennol i ymgymryd â'r gwaith hwn. Mae'r costau hyn wedi'u cyfrifo maent yn seiliedig ar weithgareddau posibl a chyflogau staff presennol ar radd briodol. Fe'u hamcangyfrifir i fod yn £80,200 y flwyddyn. O ran meysydd gwaith eraill, bydd y Comisiwn yn blaenoriaethu ei raglen waith yn seiliedig ar ddeallusrwydd, ac felly mae'r costau hyn yn ddarostyngedig i amrywiad.

## Crynodeb o Gostau:

30 R (Dyer) v Welsh Ministers [2015] EWHC 3712 (Admin), [2015] MHLO 109 - Mental Health Law Online [Rhynggrwyd]. Mentalhealthlaw.co.uk. 2017 [enwyd 2 Ebrill 2019]. Ar gael yn: [http://www.mentalhealthlaw.co.uk/R\\_\(Dyer\)\\_v\\_Welsh\\_Ministers\\_\(2015\)\\_EWHC\\_3712\\_\(Admin\),\\_\(2015\)\\_MHLO\\_109](http://www.mentalhealthlaw.co.uk/R_(Dyer)_v_Welsh_Ministers_(2015)_EWHC_3712_(Admin),_(2015)_MHLO_109)

## Dogfen DRAFFT

Mae'r costau ar gyfer datblygu a chyflenwi ymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, hyfforddiant staff, a datblygu, dosbarthu ac adolygu canllawiau statudol wedi'u crynhoi yn y tablau isod:

**Tabl 8 – Crynodeb o gostau**

	2019-20	2020-21	2021-22
<b>Llywodraeth Cymru</b> (tablau 1, 3 a 5)	£11,800	£6,200	£6,200
<b>Gweinidogion Cymru</b> (tablau 2, 4, 6 a 7)	£1,600	£1,800	£1,800
<b>Awdurdodau Lleol</b> (tablau 2, 4, 6 a 7)	£13,700	£26,000	£26,000
<b>Byrddau Iechyd Lleol</b> (tablau 2, 4, 6 a 7)	£5,100	£8,600	£8,600
<b>Ymddiriedolaethau'r GIG</b> (tablau 2, 4, 6 a 7)	£2,800	£4,000	£4,000
<b>Awdurdodau Iechyd Arbennig</b> (tables 2, 4, 6 a 7)	£1,600	£1,600	£1,600
<b>Awdurdodau Tân ac Achub</b> (tablau 2, 4, 6 a 7)	£2,800	£4,000	£4,000
<b>Awdurdodau Parciau Cenedlaethol</b> (tablau 2, 4, 6 a 7)	£2,800	£4,000	£4,000
<b>Awdurdod Cyllid Cymru</b> (tablau 2, 4, 6 a 7)	£1,600	£1,600	£1,600
<b>EHRC</b>	£40,100	£80,200	£80,200
<b>Cyfanswm</b>	<b>£83,900</b>	<b>£138,000</b>	<b>£138,000</b>

### Manteision

#### Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu dull unigryw i gryfhau Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, yn rhannol er mwyn sicrhau nad ydym yn cymryd unrhyw gamau yn ôl yn y maes hwn yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Gwnaeth Prif Weinidog Cymru ymrwymo yn ei fanifesto etholiad i gychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, ac ar 11 Mehefin 2019, rhoddodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ddatganiad llafar gerbron y Cyfarfod Llawn ynghylch Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Er mwyn dangos ac ail-gadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i egwyddorion hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, byddai Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â gwaith i edrych ar yr opsiynau i ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, yn ogystal â gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i adolygu a chryfhau rheoliadau Cymru ar gyfer Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Bydd cychwyn y ddyletswydd, felly, yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'r amcanion polisi pwysig hyn.

## Dogfen DRAFFT

Mae cyswllt diamheuol rhwng anghydraddoldeb ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>31</sup> wedi cryfhau camau gweithredu i alluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau bod fframwaith cynhwysfawr ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn 44 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ymdrin â'r her o ran mynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol sy'n pontio cenedlaethau. Mae'n darparu ar gyfer un egwyddor ("yr egwyddor datblygu cynaliadwy") i lywio sut y mae cyrff cyhoeddus yn arfer swyddogaethau fel eu bod yn ystyried sut y maent yn diwallu anghenion cenedlaethau heddiw heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain er mwyn mynd i'r afael yn well â heriau hirdymor megis anghydraddoldebau o ran canlyniad. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>2</sup> felly'n cefnogi'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ceisio gwella cydraddoldeb yng Nghymru, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 (a dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru).

Mae'r Gymru yr hoffem ei gweld, gyda llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol yn ganolog i'w gwaith, yn cael ei disgrifio yn saith nod llesiant y Ddeddf – maent yn darparu diben cyffredin ar gyfer cyrff cyhoeddus ac eraill yng Nghymru. Mae'r nodau llesiant yn set integredig - ni fydd yn bosibl sicrhau Cymru iachach, fwy ffyniannus, fwy cydnherth sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, ynghyd â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle y mae'r Gymraeg yn ffynnu heb Gymru sy'n fwy cyfartal. Mae'r ddyletswydd i gynnwys pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth y maes y mae corff cyhoeddus yn gweithredu ynddo yn cefnogi'r ddyletswydd ymglymiad cyhoeddus sy'n rhan o Ddyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru.

Bydd cychwyn y ddyletswydd yn adeiladu ymhellach ar sylfaen Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan ddarparu cyfle i wneud pethau'n wahanol, a sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn ganolog i brosesau cyrff cyhoeddus perthnasol o wneud penderfyniadau strategol. Bydd y gwaith hwn yn y pen draw yn adeiladu ar y gwaith da y mae cyrff cyhoeddus eisoes yn ei wneud i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb sy'n cysylltu â chynlluniau i gryfhau ein trefniadau ar gyfer partneriaethau cymdeithasol gan y bydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol posibl yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o safbwyntiau gwahanol.

Bydd cychwyn y ddyletswydd hefyd yn cefnogi Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn cyfuno ac yn cryfhau'r dyletswyddau cydraddoldeb sydd eisoes yn bodoli mewn perthynas â hil, rhywedd ac anabledd, ac yn estyn y diogelwch hwnnw i bobl ar sail oed, tuedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. O gofio'r cysylltiadau clir rhwng anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol a'r rheini sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig penodol, mae'r ddwy ddyletswydd yn atgyfnerthu ac yn ategu ei gilydd mewn ffordd sy'n caniatáu i gyrff cyhoeddus perthnasol ystyried mabwysiadu proses debyg wrth ystyried effaith eu penderfyniadau.

31 <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted>



# Dogfen DRAFFT

Yn olaf, mae cychwyn y ddyletswydd hefyd yn ymateb i alwadau i weithredu gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Anabledd Cymru, y Comisiynydd Pobl Hŷn a Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol Cymdeithas Sifil Cymru.

## Cyrff cyhoeddus perthnasol

Yn y bôn, bydd cychwyn y ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol hoelio sylw ar leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol wrth iddynt wneud penderfyniadau strategol. Bydd y ffocws cynyddol hwn yn helpu i leihau anfantais economaidd-gymdeithasol a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y gwasanaethau y maen nhw a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus yn eu darparu h.y. gan fod canlyniadau iechyd yn gwaethgu ar draws y graddiant economaidd-gymdeithasol<sup>32</sup>, bydd lleihau anfantais economaidd-gymdeithasol, felly, yn helpu i wella canlyniadau iechyd a fydd yn lleihau'r galw am wasanaethau gofal iechyd. Mae'r cyfraniad ar y cyd hwn yn darparu dealltwriaeth am y manau hynny lle y gall effaith corff cyhoeddus perthnasol gorgyffwrdd ag effaith sefydliadau eraill, gan gydnabod bod darpariaeth y sector cyhoeddus yn fwy na swm ei rhannau a bod modd mabwysiadu trefniadau ar gyfer cydweithio.

Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn ganolog i waith cyrff cyhoeddus perthnasol yng Nghymru o ran gwneud penderfyniadau strategol. Bydd yn sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn well ac yn fwy integredig wrth i dystiolaeth ar anfantais economaidd-gymdeithasol gael ei hystyried ochr yn ochr â materion cydraddoldeb ehangach. Bydd hefyd yn cryfhau ymhellach y ffordd y mae cyrff cyhoeddus perthnasol yn gweithio yn unol â'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>3</sup> h.y. bydd y ddyletswydd yn cefnogi gwelliannau a gwaith atal hirdymor, dylai helpu i hyrwyddo dull mwy cydweithiol ac integredig, a hybu ymglymiad pobl a chymunedau. Bydd yn cyfrannu at wella'r ffordd o reoli risgiau, gan y bydd cyrff cyhoeddus perthnasol yn nodi risgiau hirdymor a all ddod i'r amlwg o ran cyflenwi gwasanaeth cyhoeddus o safbwynt anfantais economaidd-gymdeithasol.

Bydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn helpu'r cyrff cyhoeddus hynny sy'n ddarostyngedig iddi a dyletswyddau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol i gyflawni eu hamcanion llesiant ac, wrth wneud hynny, gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

Ar gyfer cyrff cyhoeddus perthnasol, bydd dangos fel mater o drefn sut y maent wedi cyflawni eu dyletswydd yn golygu y byddant yn gweithredu'n fwy agored a thryloyw. Bydd hynny'n arwain at wella perfformiad yn ogystal â gwella perthynas â rhanddeiliaid a sefydliadau partner.

Cydnabyddir y bydd y graddau y caiff y manteision hyn eu gwireddu yn amrywio a bydd yn dibynnu ar aeddfedrwydd sefydliad o ran pa mor bell ymlaen ydyw yn ei ymgais i weithredu yn unol â'r ddyletswydd.

## Unigolion

---

<sup>32</sup> <http://www.arsyllfaiechydscyhoedduscymru.wales.nhs.uk/anghydraddoldeb-ac-annhegwch>

# Dogfen DRAFFT

Yn ei ganllawiau statudol, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio diffinio pa 'anhydraddoldebau economaidd-gymdeithasol' sy'n bwysig i Gymru drwy gysylltu hynny â mesurau cydraddoldeb sydd eisoes yn bodoli, megis y Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol a osodwyd gan Weinidogion Cymru dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n berthnasol i anhydraddoldebau, adroddiad Llesiant Cymru ac A yw Cymru'r Decach. Bydd cychwyn y ddyletswydd felly yn arwain at gyrrff cyhoeddus yn canolbwyntio ar leihau'r anhydraddoldebau hyn ac at wella canlyniadau'r bobl hynny sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

## **CRYNODEB A'R OPSIWN A FFEFRIR**

**Opsiw 1** - Nid yw'n cynnig unrhyw newid i'r ffordd bresennol o weithio, gydag unrhyw welliant i'r ffordd yr ystyrir anhydraddoldebau economaidd-gymdeithasol yn cael ei hyrwyddo drwy'r ddeddfwriaeth, y polisiau a'r mesurau sydd eisoes yn bodoli. Nid oes un rheswm i feddwl y byddai parhau i weithredu fel hyn yn lleihau anfantais economaidd-gymdeithasol ac yn wir, mae'r dystiolaeth y cyfeirir ati yn Opsiw 1 yn dangos bod tlodi cymharol ymhlith plant yng Nghymru yn debygol o godi yn sgil diwygiadau gan Lywodraeth y DU ym maes treth a lles a fydd yn gwthio 50,000 o blant ychwanegol i mewn i dlodi erbyn 2021-22 (cynnydd o ryw 8 pwynt canran). Mae risg yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn felly, gan y byddai cadw'r status quo yn golygu colli cyfle i leihau anhydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Opsiw 2** - Mae'n creu dyletswydd gyffredinol newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus perthnasol, wrth wneud penderfyniadau strategol megis 'penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion', ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anhydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r opsiwn hwn yn cynnig y ffordd ymlaen orau i ymgorffori egwyddor y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn llwyddiannus yn y ffordd y mae cyrrff cyhoeddus yn gwella llesiant hirdymor. Bydd yn helpu i sicrhau bod cyrrff cyhoeddus gwahanol yn gweithio'n well gyda'i gilydd tuag at un nod cyffredin, yn darparu eglurder ynghylch golwg anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghymru, ac yn ein galluogi i fynd ati'n gadarnhaol i symud Cymru ymlaen yn gyflymach ar ei thaith i gryfhau Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yma. Bydd hefyd o fudd i ddinasyddion Cymru drwy ddarparu man iddynt fyw ynddo lle y caiff pawb gyfle i ffynnu, ni waeth pwy ydynt neu o ble y dônt.

Er bod manteision anafesuredig, ystyrir eu bod yn ddigonol i gyfiawnhau'r gost ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Opsiw 2.